# Adroddiad Blynyddol

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## 2015 - 2016

**Cyhoeddwyd Medi 2016**

## Cynnwys


| Mynegai | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Datganiad Cydraddoldeb gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 1 |
| Cyflwyniad a Chefndir | 2 |
| Gofynion Deddfwriaethol | 3 |
| Gwybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 4 |
| Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub | 5 |
| Adnoddau Dynol | 6 |
| Gwasanaethau | 7-10 |
| Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb | 11 |
| Ein Hamcanion 1 – 11 | 12-23 |
| Data Cyflogaeth | 24-30 |
| Data Darparu Gwasanaethau | 31-33 |

# Datganiad Cydraddoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o gyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2015-2016 ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Dyma'r adroddiad diwethaf mewn perthynas â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2012-2016, ac mae'n gofnod o'r cynnydd a wnaethom mewn perthynas â chyflawni ein hamcanion gwella a hyrwyddo'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Gogledd Cymru. Fel cyflogwr, rydym hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei atgyfnerthu gan ein Gwerthoedd Craidd, sydd wedi eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein cydweithwyr a'n partneriaid. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bawb drwy leihau gwahaniaethu mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Dyma dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at y canlynol:

- Dileu neu leihau anfantais i bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig.
- Diwallu anghenion pobl â rhai nodweddion gwarchodedig pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, gan gynnwys cymryd camau i ystyried anghenion pobl anabl.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn Ebrill 2012. Roedd yn nodi ein hymrwymiad parhaus i sicrhau tegwch i drigolion, aelodaeth etholedig, aelodau staff a phob ymwelydd â Gogledd Cymru.

| | |
|---|---|
| Simon A Smith | Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies |
| **Prif Swyddog Tân** | **Cadeirydd - Awdurdod Tân ac Achub** |

## Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dwyn ynghyd dros 116 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth o fewn un Ddeddf. Pan fo modd, bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd y tu hwnt i ofynion y gyfraith yn ein gwaith yn annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chydlyniant, a hynny fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sefydlu Dyletswydd Gyffredinol a Dyletswyddau Penodol Cymreig ar gyfer cyrff cyhoeddus megis Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r gyfraith yn sefydlu bod y nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw (rhywedd) a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae manylion ynghylch y modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bwriadu sicrhau cydymffurfiad dan y Ddeddf Cydraddoldeb newydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod, sydd i'w gael yn:

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft_word_-_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch yn ystod yr amser penodol. Er cysondeb, mae'r ddogfen yn dilyn trefn y dyletswyddau penodol Cymreig, gyda'r data allweddol angenrheidiol yn yr atodiadau.

Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru adrodd bob blwyddyn am yr wybodaeth a ganlyn.

- y camau a gymerodd yr awdurdod i ganfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut y mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- datganiad ar ba mor effeithiol yw'r camau a gymerodd yr awdurdod i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (oni bai ei fod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rhywle arall).

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn nodi ein hymrwymiad i wella bywydau pobl yng Ngogledd Cymru ac i gyfathrebu â'n cymunedau ynglŷn â hynt hynny. Mae hefyd yn dangos sut rydym yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ac mae'n dystiolaeth ein bod yn benderfynol drwy'r amser i hybu'r agenda cydraddoldeb.

# Y Gofynion Deddfwriaethol

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011)

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gytgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- **dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf hon neu odani;**

- **hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**

- **hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig'.


## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Hefyd, mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys:

- cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddi a chasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg gweithwyr am y Ddeddf Cydraddoldeb;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau;
- adolygu cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

Yn fras, diben y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw cynorthwyo cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

## Gwybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru




***Map o Ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

### Yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri yng Nghymru. Rôl yr Awdurdod yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a Chynllun Cyfuno 1995;

- cytuno ar gynlluniau blynyddol yr Awdurdod, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol;

- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Penderfynir ar nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ar sail poblogaeth.

## Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub

Y Prif Swyddog Tân yw pennaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ef sydd â rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth, ac mae'n darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn crynhoi'r egwyddorion yr ydym yn eu dilyn a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Dyma'r gwerthoedd craidd:

### Gwasanaeth i'r gymuned

Gwerthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phob grŵp i leihau risg
- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Bod yn atebol i'r rhai hynny rydym ni'n eu gwasanaethu
- Ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn

### Pobl

Gwerthfawrogi ein holl weithwyr drwy arfer a hyrwyddo'r canlynol:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod teilyngdod
- Gonestrwydd, didwylledd a chyd-ymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Cydweithio a gwaith cynhwysol

### Amrywiaeth

Gwerthfawrogi amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Darparu amrywiaeth o datrysiadau ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth a dilyniant yn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a gwahaniaethu

### Gwelliant

Gwerthfawrogi gwelliant ar bob lefel o'r Gwasanaeth drwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad drwy wneud y canlynol:

- Bod yn feddwl-agored
- Ystyried beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu oddi wrth brofiad
- Ymgynghori ag eraill

# Adnoddau Dynol

## Polisi Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu

Mae polisi'r Gwasanaeth ar Famolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu wedi cael ei ddiweddaru i gydymffurfio â newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth, yr arferion da a'r canllawiau proffesiynol. Yr hawl i weithwyr sydd â Phlant hyd at 18 mlwydd oed gael gofyn am seibiant rhiant. Mae'r hawliad yn dibynnu a oes gan y gweithwyr o leiaf flwyddyn o wasanaeth parhaus. Y gweithiwr â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn dan sylw, a'r seibiant yn cael ei gymryd er mwyn gofalu am blentyn. Yr uchafswm o seibiant rhiant di-dâl yw deunaw wythnos i bob plentyn. Uchafswm o bedair wythnos y flwyddyn.

Bydd y Gwasanaeth bob amser yn ceisio darparu ar gyfer cais gweithiwr, ac ni fydd ond yn gohirio seibiant arferol i riant pan nad oes unrhyw ddewis arall a phan fo tystiolaeth y byddai hynny'n tarfu'n ormodol ar fusnes.

Mae'r dull hwn yn sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â gweithio'n hyblyg yn rhai goddrychol a'u bod yn gwbl seiliedig ar resymau busnes, gan gael gwared ar unrhyw ragfarn, a thrwy hynny sicrhau triniaeth deg i bawb. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei bod yn bwysig helpu ei weithwyr i gael cydbwysedd rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd gartref drwy gynnig trefniadau gweithio'n hyblyg sy'n eu galluogi i gael cydbwysedd rhwng eu bywyd gwaith a blaenoriaethau eraill, gan gynnwys cyfrifoldebau fel rhieni.

## Prentisiaethau

Mae llawer o bobl rhwng 18-24 mlwydd oed yn cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Gall prinder profiad gwaith fod yn rhwystr gwirioneddol i bobl ifanc. Y llynedd, cawsom gyfle i ddatblygu prentisiaeth dair blynedd fel diffoddwyr tân, gan gynnig cyfle i ddeg o bobl ifanc fod yn ddiffoddwyr tân modern wedi'u hyfforddi i warchod eu cymuned. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o blaid datblygu'r prentisiaethau ledled y Gwasanaeth.

I bobl ifanc sy'n brin o brofiad gwaith, mae'r cyfle i gyflawni gwaith go iawn ac addasu i drefn ac arferion bywyd gwaith yn gallu gwella'r rhagolygon gwaith yn fawr ynghyd â darparu geirda ar ddiwedd yr interniaeth.

## Gweithredu Cadarnhaol yn yr Ymgyrch Recriwtio Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn

Fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal ymgyrch recriwtio Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn 2015. Cynhaliwyd Diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl i geisio annog merched a phobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig i ystyried gyrfa fel diffoddwyr tân.

Nod y digwyddiadau yma oedd caniatáu i'r rhai a oedd yn bresennol ddeall beth yw rôl diffoddwr tân a beth yw'r broses ddethol. Ein nod yw cael gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, ac ar hyn o bryd mae merched a phobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tan-gynrychioli yn y Gwasanaeth. Rydym eisiau darparu'r gwasanaeth tân ac achub gorau posibl i bobl Gogledd Cymru, ac mae'r digwyddiadau hyn yn allweddol i'r weledigaeth hon.

Mae'r diwrnodau gweithredu cadarnhaol yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau y gwelwyd eu bod wedi eu tangynrychioli yn y gweithlu. Mae pob ymgeisydd yn cystadlu'n agored ac yn deg unwaith y mae'r broses ddethol yn dechrau.

### Y Diweddaraf am Ddata Cyflogaeth

Rhaid i'r Awdurdod gasglu gwybodaeth yn ymwneud â chyflogaeth y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. Rhaid cyhoeddi'r data yma erbyn 31ain Mawrth yn y flwyddyn ganlynol. Mae'r System bresennol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth (MIS) yn dod i ddiwedd ei hoes. Cychwynnwyd ar brosiect i ddod o hyd i system yn ei lle drwy gyflogi Rheolwr Gweithredu rhan amser ym mis Tachwedd 2015. Bydd System Gwybodaeth Reoli newydd yn gymorth i gasglu data, gwella cywirdeb, a sicrhau mynediad at wybodaeth amserol ac ystyrlon a fydd yn gymorth i wneud penderfyniadau. Bydd system o'r fath yn gwella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb.

## Darparu Gwasanaethau

### Ymgysylltu – Diogelwch Cymunedol

Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ymgysylltu â **phob** aelod o'r gymuned, a hynny yn ei weithgareddau ei hun a hefyd ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill a'r Trydydd Sector.

Mae'r canlynol yn amlinellu peth o'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod gyda grwpiau penodol sy'n fregus a chyda nodweddion gwarchodedig:

### Oedran

Mae GTAGC yn parhau i gynorthwyo i wella diogelwch preswylwyr hŷn a/neu anabl wrth gynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref, ymyriadau arbenigol a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i osod systemau monitro gofalu o bell.

Mae gan Age Connect gytundeb lefel gwasanaeth â GTAGC i gynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref. Mae'r rhai sy'n gymwys i gael y bathodyn glas yn cael cynnig archwiliad diogelwch yn y cartref pan fyddant yn gwneud cais am fathodyn glas neu'n ei adnewyddu yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Mae cynllun y gyrwyr hŷn, sy'n asesu sgiliau gyrwyr hŷn, hefyd yn cael ei gefnogi gan GTAGC. Fel rhan o archwiliad diogelwch yn y cartref, mae ein staff yn cynnig cymorth i yrwyr hŷn drwy gynnal gwiriad sylfaenol ar ddiogelwch y cerbyd i sicrhau ei fod yn addas i fynd ar y ffordd. Mae hyn o gymorth arbennig i'r rhai sydd o bosibl wedi dibynnu ar gymar i wneud y math yma o waith gwirio yn y gorffennol.

Mae gwaith ymyrryd ac addysgu plant a phobl ifanc yn cael ei wneud drwy Brosiect y Ffenics. Mae ein Haddysgwyr yn darparu negeseuon diogelwch cymunedol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1, 2 a 3, nid yn unig mewn ysgolion ond hefyd mewn unedau cyfeirio disgyblion.

Rydym yn ymgysylltu â phlant mor ifanc â thair mlwydd oed os bu ymyriad amhriodol â thân neu os yw tân yn eu cyfareddu, a hynny drwy FACE (Addysg i Blant am Ymwybyddiaeth o Dân) ynghyd â staff o'r cynllun Fire Safe.

Mae pawb sydd wedi'u cysylltu â'r system teleofal wedi cael, neu'n mynd i gael, y fantais o gael larymau mwg wedi'u cysylltu â'r system teleofal. O'r blaen, roedd hyn yn ychwanegiad dewisol ond nawr caiff ei ddarparu'n rhad ac am ddim i gwsmeriaid teleofal ledled Gogledd Cymru.

Mae Offeryn Asesu Risg Cwympo wedi bod yn sail i gynllun treialu yn Sir Ddinbych fel rhan o archwiliad diogelwch yn y cartref. Gofynnir pum cwestiwn syml i bobl dros 65 mlwydd oed ac os oes ateb cadarnhaol i dri o'r cwestiynau, gwneir atgyfeiriad i Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych a'r Tîm Atgyfeirio Cwympo. Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn Sir Ddinbych, mae'r gwasanaeth yn mynd ati i roi'r Offeryn Asesu Risg Cwympo ar waith yn raddol ledled Gogledd Cymru.

## Anabledd

Mae gan y Gwasanaeth bartneriaethau ag asiantaethau megis Cartrefi Cymru, sy'n darparu ffyrdd i bobl ag anableddau fyw'n annibynnol. Mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth â Baywater Healthcare, y cwmni darparu ocsigen i bobl fregus yng Ngogledd Cymru, i gynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref. Mae pob cartref yng Ngogledd Cymru sydd â rhywun yn defnyddio ocsigen yn cael eu cysylltu gyda'r Ystafell Reoli Tân (Canolfan 999).

Mae GTAGC yn darparu amrywiaeth o ymyriadau yn ôl anghenion yr unigolyn, megis larymau mwg i'r rhai sy'n drwm eu clyw a hefyd systemau dŵr mân Ultraguard sy'n cael eu gosod mewn eiddo lle credir bod y person, oherwydd eu hanableddau, mewn perygl mawr o farw neu gael anaf difrifol petai yna dân, ynghyd â methu dianc a chael eu cyfyngu i un ystafell.

Caiff systemau Ultraguard eu gosod pan fo pobl yn dymuno parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain ond sydd ag anghenion cymhleth neu broblemau'n ymwneud â ffordd o fyw sy'n eu gwneud yn agored i niwed.

<u>Pobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw</u> – Rydym yn cael cysylltiad uniongyrchol â phobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yn ystod archwiliadau diogelwch yn y cartref a thrwy gytundeb lefel gwasanaeth sydd gennym gyda Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru sydd hefyd yn cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref ar ein rhan. Pan fo'n briodol bydd Cymdeithas y Byddar yn atgyfeirio unigolion yn ôl i GTAGC i gael ymyriadau arbenigol megis Systemau Bellman. Hefyd, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cysylltiadau gyda Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ac mae ganddo staff sydd wedi cael eu hyfforddi yn Iaith Arwyddion Prydain. Mae ein holl staff yn cario cerdyn adnabod a Braille arno, a hefyd mae systemau dolenni anwytho ar safleoedd GTAGC. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cael ei roi ar y rhestr fer yng nggwobrau blynyddol Action on Hearing Loss.

Rydym yn cael cysylltiad â'r <u>rhai sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl</u> drwy archwiliadau diogelwch yn y cartref a thrwy gysylltiad â'r Timau Iechyd Meddwl. Rydym yn mynychu cyfarfodydd achosion ac ymweliadau ar y cyd, ac mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn tanategu'r gwaith hwn ar gyfer atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau diogelwch yn y cartref. Mae holl staff Diogelwch Cymunedol yn ymwybodol y dylent, pan fo'n briodol, drosglwyddo i'r llinell gymorth Dementia, ynghyd â'r llinell gymorth iechyd meddwl (C.A.L.L.), yn ogystal â'r llinell gymorth cyffuriau ac alcohol. Mae holl staff Diogelwch Cymunedol wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn ddiweddar, ac mae'r gwasanaeth wedi dod yn sefydliad sy'n deall Dementia.

Mae pob aelod o'r staff wedi cymryd rhan mewn 'Ymyriadau Byr' ac egwyddorion 'Gwneud i bob Cyswllt Gyfri'. Os yw hynny'n briodol, bydd y staff yn cael trafodaeth am lesiant meddyliol, cymryd cyffuriau neu alcohol, ymarfer corff ac ysmygu, gyda'r bwriad o ddangos lle i gael cymorth i'r rhai sydd eisiau gwneud newidiadau yn eu bywydau.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi lansio cynllun treialu Tîm Cymorth Cymunedol, pryd y mae staff y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu hanfon at bobl sydd wedi cwympo ond heb gael anaf, a hynny ar ran Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Bydd y cynllun treialu sydd ar waith yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn darparu ymateb mwy amserol i bobl sydd wedi cwympo heb anaf, ac felly'n atal yr angen i anfon ambiwlans allan neu i'r sawl sydd wedi cwympo orfod mynd i'r ysbyty.

## Merched a phobl o gefndiroedd ethnig gwahanol

Mae GTAGC yn cynnal diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol cyn recriwtio, a'r rheini wedi eu hanelu at ddenu merched a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ystyried gyrfa yn y gwasanaeth tân ac achub. Ar hyn o bryd maent yn cael eu tangynrychioli yn y Gwasanaeth.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) yn cynorthwyo pobl sy'n cyrraedd Cymru fel ymfudwyr a hefyd yn gwneud gwaith helaeth o fewn y gymuned Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol a Thrawsrywiol. Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud trefniadau atgyfeirio diogelwch yn y cartref gyda NWREN. Hefyd, mae gennym gysylltiad â BAWSO (*Black Association of Women Step Out)*. Mae BAWSO yn darparu gwasanaethau arbenigol i bobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, Priodas drwy Orfodaeth a Chaethwasiaeth Fodern.

### Crefydd

Mae Wardeiniaid Cymdogaeth Wrecsam a Sir y Fflint wedi ymweld â mosgiau yn yr ardal i drafod diogelwch tân yn y cartref gan ddefnyddio llenyddiaeth diogelwch tân GTAGC. Mae'r adran cyfathrebu corfforaethol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i ddyddiadau'r gwyliau crefyddol ynghyd â neges berthnasol am ddiogelwch tân.

### Pobl Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol a Thrawsrywiol

Mae cynrychiolwyr o GTAGC yn mynychu Digwyddiadau Pride yng Ngogledd Cymru a Chaer, ac mae'r Gwasanaeth yn un o Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ac mae ganddo Fodelau Rôl Stonewall ymhlith ei staff. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu cynllun cefnogi cydweithwyr, gydag un cefnogwr yn cefnogi staff LGBT yn benodol.

### Rhyw

Mae'r Gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd aml-asiantaethol i asesu risg, sy'n ymdrin â cham-domestig ac achosion o drais rhywiol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi ac yn mynychu cyfarfodydd i gefnogi'r prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig drwy osod safonau isafswm gwasanaeth ac annog gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau. Mae gennym bolisi penodol ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gyda gweithdrefn adrodd bendant os yw staff yn dymuno rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn y gweithle neu ynghylch aelodau o'r cyhoedd y maent yn dod ar eu traws wrth gyflawni eu swydd. Yn Wrecsam, mae ein staff wedi cael eu comisiynu i ddarparu ymyriadau gwella diogelwch i ddioddefwyr cam-drin domestig.

### Tlodi

Mae aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar Gynhwysiant Ariannol er mwyn dangos y ffordd ac atgyfeirio pobl pan maent yn cael trafferthion ariannol. Hefyd, mae pobl sy'n dioddef tlodi tanwydd yn cael eu hatgyfeirio i NYTH. Un o gynlluniau Llywodraeth Cymru yw NYTH i helpu i ostwng nifer y cartrefi mewn tlodi tanwydd gan wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a hefyd yn fwy diogel oherwydd ni fydd raid i'r deiliaid barhau i ddefnyddio dulliau llai cost-effeithiol neu beryglus i wresogi eu cartrefi, megis gwresogyddion nwy er enghraifft.

### Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern

Mae aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth ar Gaethwasiaeth Fodern er mwyn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru gydag adroddiadau ar sail gwybodaeth ac er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o'r hyn yw Caethwasiaeth Fodern.

### Dioddefwyr Troseddau Casineb

Gellir cynorthwyo dioddefwyr troseddau casineb drwy wella diogelwch eu cartrefi, a hynny ar y cyd â'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn ystod archwiliadau diogelwch yn y cartref a thrwy asiantaethau fel Wardeiniaid Sir y Fflint a Pen Cartref. Yn Wrecsam, mae staff GTAGC hefyd yn mynd ati i osod cyfarpar gwella diogelwch.

### Pobl Ddigartref

Mae pobl ddigartref o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd yn cael cymorth drwy elusennau megis The Wallich yn y Rhyl a Shelter Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r ddwy elusen pan fo pobl yn cael eu hailgartrefu er mwyn codi ymwybyddiaeth ac atal tanau. Bydd The Wallich a Shelter Cymru yn atgyfeirio pawb a oedd yn arfer bod yn ddigartref i gael archwiliad diogelwch yn y cartref yn ystod y diwrnodau cyntaf ar ôl iddynt arwyddo tenantiaeth newydd, a bydd ein staff yn mynd i'r eiddo ac yn rhoi addysg a larymau mwg pan fo angen.

## Ymgysylltu – Diogelwch Tân Busnesau

Mae'r fenter i ddarparu addysg diogelwch tân busnesau i berchnogion a rheolwyr safleoedd bwyd cymryd allan lle credir bod yna risg fawr (h.y. lle cysgu uwchben y siop heb ddihangfa annibynnol). Mae'r fenter wedi golygu gweithio gyda phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig y mae'r Saesneg yn ail iaith i lawer ohonynt. Cynigir y gwasanaeth hwn yn Gymraeg hefyd.

Mae'r amgylchedd gofal yn faes lle mae risg yn fawr. Yn y sector hwn, mae'r Gwasanaeth yn cael cysylltiad rheolaidd drwy raglen awdit/archwiliadau gyda'r henoed, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Rydym wedi darparu cyngor ac addysg diogelwch tân, fel arfer ar gais, a hynny mewn amrywiaeth o addoldai, gan gynorthwyo i ddarparu amgylchedd sy'n ddiogel rhag y perygl o dân.

# Sut y mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon

## Diogelwch Cymunedol

Pa wahaniaeth a wnaeth y gwaith ymgysylltu?

- Cartrefi diogelach ledled Gogledd Cymru drwy waith diogelwch cymunedol rhagweithiol, archwiliadau diogelwch yn y cartref, larymau mwg rhad ac am ddim, ac ymyriadau eraill wedi eu dewis a'u teilwra i anghenion unigolion.
- Mae yna fwy o ymwybyddiaeth ledled cymuned Gogledd Cymru am y gwasanaethau a ddarperir gan GTAGC a sut gellir mabwysiadu'r rhain i fodloni gwahanol ofynion.
- Gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau drwy archwiliadau diogelwch yn y cartref, ymyriadau wedi'u targedu, casglu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth.
- Gostyngiad yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc a gyrwyr ifanc yn dilyn y cysylltiad â phobl ifanc drwy Gynllun y Ffenics, Prosiect Chwyldro a FireSafe.
- Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau'n ymwneud â llosgi bwriadol.
- Mwy o bobl fregus yn byw'n annibynnol, gan olygu eu bod angen llai o ymyrraeth gan y gwasanaeth iechyd.

### Diogelwch Tân Busnesau

Pa wahaniaeth a wnaeth y gwaith ymgysylltu?

- Nod pob ymgysylltiad diogelwch tân yw gwneud safleoedd yn fwy diogel rhag tân fel y bo Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i weithio ynddi, i fyw ynddi ac i ymweld â hi.

- Mae'n bwysig sylweddoli bod diogelwch busnesau yn gweithredu er mwyn gwneud pobl yn fwy diogel yn yr amgylchedd adeiledig. Mae'r atebion a ddatblygir yn ystyried anghenion y bobl sy'n bresennol i greu amgylchedd sydd yn ddiogel rhag tân. Gall nodweddion gwarchodedig crefydd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd fod yn ffactorau pwysig wrth ddatblygu ateb diogel ar gyfer y safle.

- Yn ôl y gyfraith, y Person Cyfrifol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd diogel hwn, ond bydd GTAGC yn darparu addysg a chymorth lle bo modd. Mae GTAGC yn cadw'r hawl i gymryd camau gorfodaeth yn erbyn y rhai sydd ddim yn gwneud eu safleoedd yn ddiogel rhag tân.

## Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb yn broses strwythuredig sy'n ceisio sicrhau ein bod, pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, yn datblygu strategaeth neu bolisi, neu'n gwneud unrhyw beth arall sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau neu ein staff, yn gwneud hynny mewn ffordd deg, atebol a thryloyw gan ystyried anghenion a hawliau'r rhai y gallai hynny effeithio arnynt, yn enwedig mewn perthynas â'r bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol (Cymru) 201.

Yn 2011, fe wnaeth y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i adolygu eu proses ar gyfer asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ar ddechrau 2013, cychwynnodd y tri Gwasanaeth yng Nghymru ar gyfres o hyfforddiant ar asesu risg cydraddoldeb dros y ddwy flynedd ganlynol. Roedd cynnwys y cwrs wedi cael ei ddylunio i gynnwys y dadleuon cyfreithiol a moesol dros asesu effaith ar gydraddoldeb ac mae wedi galluogi rheolwyr i gynnal asesiadau effaith yn hyderus.

Mae lefel y gwelliant o ran deall yr angen dros gynnal asesiadau effaith, ynghyd â'r prosesau ar gyfer gwneud hynny, yn gadarnhaol iawn.

## Cyhoeddi a Monitro Canlyniadau

Mae'r Awdurdod yn casglu data cyflogaeth ers nifer o flynyddoedd yn unol â nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn rhoi'r darlun mwyaf cynhwysfawr inni o bwy sy'n cael eu cyflogi gennym. Mae angen cwestiynau ychwanegol am y Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol.
Caiff data'r gweithlu presennol ei gyhoeddi yn atodiad 1.

Mae'r Awdurdod yn mynd ati bob blwyddyn i gyhoeddi gwybodaeth am ei berfformiad o ran darparu gwasanaethau (gweler Atodiad 2). Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy fewnrwyd GTAGC, ac fel copi caled os gwneir cais amdano.

## Sut i gysylltu â ni

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn hawdd mewn gwahanol ffurfiau. Bydd ffurfiau eraill, megis papur lliw neu sain ar gael os gofynnir amdanynt. Os ydych yn dymuno rhoi adborth neu wneud awgrym, neu os ydych yn dymuno cael copi ar ffurf arall, cysylltwch â:


Post: Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Gwasanaeth Tân ac Achub
Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
LLANELWY
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535250

Ffacs: 01745 535296

E-bost: sue.jones@gwastan-gogcymru.org.uk


## Diwyg Hygyrch

Caiff y ddogfen hon a'r dogfennau ategol eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn Microsoft Word a PDF. Bydd diwyg hygyrch arall yn cynnwys print bras, Braille, DVD iaith arwyddion Prydain, hawdd ei ddarllen, sain ac electronig, ac ieithoedd eraill ar gael os gwneir cais amdanynt.

## Ein Hamcanion

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 3*** | ***gosod a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 3(2)*** | ***cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 4*** | ***llunio ac adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 13*** | ***adolygu'r holl drefniadau a wneir o dan y Rheoliadau*** |
| ***Rheoliad 14*** | ***ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn Ebrill 2012*** |
| ***Rheoliad 15*** | ***bydd yr Awdurdod yn llunio ac yn adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ynglŷn â chasglu data perthnasol*** |

### *Gosod amcanion cydraddoldeb ac ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd ar gynnydd y Cynllun.*

| **Amcan 1** | Gosod a monitro'r Amcanion Cydraddoldeb sydd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac adolygu'r Amcanion cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd, ac adrodd ar y cynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob Amcan. |
|---|---|
| Rheswm | Mae'r Amcanion Cydraddoldeb sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi eu seilio ar dystiolaeth, a honno wedi ei chael trwy naill ai ymgysylltu neu ymgynghori, yn benodol gyda'r rhai sy'n cynrychioli neu'n rhannu'r naw o nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010. Wedi ei gosod yn y Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru), ac yn cael ei gefnogi ganddynt. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar yr Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau busnes yr adrannau perthnasol. Bydd yr amcanion yn rhan o'r mecanwaith adrodd busnes, gan adolygu cynnydd bob chwarter. Bydd yr Amcanion yn arwain at sicrhau bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ei adnoddau ar bobl fregus yn y gymuned a staff yr Awdurdod, sy'n cynrychioli un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei lunio a'i fonitro gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb drwy gynlluniau busnes adrannau rheolwyr unigol. Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei adolygu bob blwyddyn a chyflwynir adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 ei gyhoeddi yn Ebrill 2012. Neilltuwyd swyddog arweiniol i bob un o'r amcanion cydraddoldeb sydd yn y cynllun cydraddoldeb.<br><br>Bydd y mecanwaith ar gyfer adrodd yn ei gwneud yn haws i ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb yn y broses cynllunio busnes gyda diweddariadau monitro bob chwarter. Y diweddariad monitro chwarterol yw sail y diweddariad ar yr Amcanion Cydraddoldeb yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod Tân.<br><br>Wrth i'r Amcanion Cydraddoldeb gael eu cwblhau maent yn cael eu harwyddo i ffwrdd. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn gosod Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cefnogi ein hamcanion gwella ac yn cael eu monitro bob chwarter trwy broses y gyllideb a chynllunio busnes, a byddant yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub. Wedi hynny, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gadw dan arolwg blynyddol, ac yn cael adolygiad llawn cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 4*** | ***sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu*** |
| ***Rheoliad 5*** | ***gofyniad i gydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu*** |

## *Trefniadau Ymgysylltu a Chynnwys*

| | |
|---|---|
| **Amcan 2** | Datblygu Strategaeth Ymgynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd a staff yr Awdurdod sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ac y mae ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn effeithio arnynt. Bydd y Strategaeth yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau sy'n dod dan un neu ragor o'r naw o nodweddion gwarchodedig. |
| Rheswm | Mae'r Dyletswyddau Penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys pobl y mae penderfyniadau, polisïau a'r gweithdrefnau'r Awdurdod yn effeithio arnynt, ac ymgynghori â hwy. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Dylai'r gwaith o ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu dilynol gael ei oleuo gan y gwaith o ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r staff ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dod dan un neu ragor o'r naw nodwedd warchodedig. Bydd ymgynghori a chynnwys yn arwain at amcanion realistig sy'n cael eu goleuo gan aelodau o'r cyhoedd a'r staff. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yn gyfrifol am lunio'r strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ac am sefydlu grŵp o gyfeillion beirniadol/fforwm ymgynghori. Hefyd bydd gofyn i'r swyddog arweiniol ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio'r cyswllt presennol â'r cyhoedd i ymgysylltu ac ymgynghori. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Mae'r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori a luniwyd ac a gymeradwywyd gan Grŵp Gweithredol y Gwasanaeth yn parhau yn ei lle. Rhannwyd y strategaeth hon â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yn Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan, a chytunwyd yn ffurfiol arno ledled Cymru fel Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori Cymru gyfan. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw sicrhau y bydd y tri gwasanaeth tân ac achub yn mabwysiadu dull cydweithredol o ymdrin ag ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer Cymru.<br><br>Nod y ddogfen yw darparu cyfarwyddyd a chysondeb wrth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Cytunodd y Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan arno a chafwyd cymeradwyaeth gan y tri gwasanaeth tân ac achub. Bydd penderfynu sut i gyflawni'r dull cyffredin yn rhan o flaenraglen waith Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan, a bydd y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yn adrodd yn ôl i GTAGC ynghylch y cynnydd.<br><br>Bydd pob gwasanaeth tân ac achub yn cadw strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu manylach wedi'u teilwra iddyn nhw'n unigol er mwyn mynd i'r afael â materion lleol. Datblygodd GTAGC strategaeth ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Amcanion Cynllun Gwella'r Gwasanaeth y llynedd, a chaiff ei addasu ar gyfer yr ymgynghoriad a gynhelir yn hydref 2016.<br><br>I gefnogi hyn, mae Grŵp Gweithredol GTAGC wedi cytuno ar adroddiad newydd ar Argymhellion Ymgysylltu ac Ymgynghori. Daw'r adroddiad hwn ar ôl gweld yr angen i fabwysiadu dull sefydliadol o ymdrin ag ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Yn goleuo'r adroddiad, mae astudiaeth a gynhaliwyd gan Cyfranogaeth Cymru ar y newidiadau y teimlid bod eu hangen i wella gweithgareddau ymgysylltu GTAGC. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn sefydlu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu. Bydd y strategaeth hon yn edrych ar y ffordd yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn edrych ar ffyrdd o wella'r broses a defnyddio'r ffyrdd cyfredol o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig plant ac oedolion bregus. Bydd y strategaeth yn ystyried defnyddio grwpiau cyfeillion beirniadol neu ymgynghoriad partneriaeth.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 5*** | ***darpariaethau ymgysylltu*** |
| ***Rheoliad 7*** | ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob blwyddyn adrodd ar gasglu data perthnasol*** |

## *Casglu Data'r Awdurdod*

| **Amcan 3** | Dadansoddi'r modd y mae'r Awdurdod yn casglu data am Gyflwyno Gwasanaethau, a'r modd y cânt eu defnyddio i oleuo'r modd y byddwn yn cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol, a gwella. Canfod ffyrdd o gipio'r data coll perthnasol, a datblygu proses ar gyfer casglu'r data. |
|---|---|
| Rheswm | • Cymryd rhan mewn proses o welliant parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Sicrhau ein bod yn casglu'r data angenrheidiol a pherthnasol ar Ddarparu Gwasanaethau, a bod y data'n cyfateb i un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bod y data a gasglwn yn cael ei fesur, a'u bod yn berthnasol ac yn goleuo'r modd y byddwn yn darparu gwasanaethau i rannau bregus o'r gymuned yn y dyfodol. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân a'r Uwch Reolwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am gipio'r data perthnasol sy'n ymwneud â Darparu Gwasanaethau. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Ym mis Mehefin 2015, fe wnaeth y Gwasanaeth weithredu cynllun chwe mis i dreialu tri dull gwahanol o gasglu data cydraddoldeb mewn digwyddiadau gweithredol. Cafodd ardal y Gwasanaeth ei rannu'n dair rhan yn ddaearyddol, a chafodd y criwiau eu hyfforddi ar bwrpas y cynllun a'r modd i'w gyflwyno. Dyma'r tri dull o gasglu data:<br><br>• Holi wyneb yn wyneb ar safle digwyddiad gweithredol;<br>• Holi drwy ohebu ar ôl bod yn bresennol mewn digwyddiad gweithredol;<br>• Holi drwy ddefnyddio porth electronig ar-lein.<br><br>Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn estyniad i'r hyn a gasglwyd yn ystod archwiliad diogelwch yn y cartref, ac roedd yn sicrhau bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa i ddadansoddi gwybodaeth am ddigwyddiad a phenderfynu a oedd aelodau o'r gymuned, a oedd yn dod dan nodweddion gwarchodedig, mewn mwy o berygl o fod mewn digwyddiad, boed hwnnw'n dân, yn wrthdrawiad ar y ffordd, neu'n ddigwyddiad arall y gallai'r Gwasanaeth gael ei alw ato. Byddai hyn yn ffordd o ddatblygu a thargedu mentrau penodol i leihau unrhyw risg.<br><br>Aeth y Gwasanaeth at 552 o ddigwyddiadau cymwys yn ystod y cyfnod treialu, gyda dim ond 167 yn cynhyrchu unrhyw ymatebion gan y bobl a fu yn y digwyddiadau. Roedd y digwyddiadau wedi'u lledaenu'n eithaf teg dros y tair ardal, a chafwyd y nifer fwyaf o ymatebion drwy holi wyneb yn wyneb, a hynny yn Wrecsam a Sir y Fflint.<br><br>Dyma ddadansoddiad o'r digwyddiadau a'r ymatebion:<br><br>Wrecsam/Sir y Fflint - 205 digwyddiad - 134 ymateb (Wyneb yn wyneb)<br>Conwy/Sir Ddinbych - 164 digwyddiad - 5 ymateb (System Electronig)<br>Gwynedd/ Ynys Môn - 183 digwyddiad - 28 ymateb (Llythyr)<br><br>Roedd yr ymatebion yn datgelu gwybodaeth gyfyngedig, o bosibl oherwydd natur y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, ac nid oeddent yn darparu unrhyw wybodaeth o bwys o ran mwy o risg o bobl o fewn nodweddion gwarchodedig. Fe wnaeth y criwiau a oedd yn cynnal y cyfweliadau wyneb yn wyneb ganfod bod hynny'n anodd oherwydd natur bersonol iawn y dasg o holi am y nodweddion gwarchodedig, ac roedd yn rhaid i'r gwasanaeth ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus.<br><br>Ar ôl defnyddio'r dull electronig ar-lein a'r gwasanaeth post ar gyfer gohebiaeth, dim ond 33 holiadur a ddychwelwyd allan o gyfanswm o 347 o ddigwyddiadau. |

| | |
|---|---|
| | Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd am gydraddoldeb ei dadansoddi a'i chymharu â'r wybodaeth a roddwyd yn y Cyfrifiad Cenedlaethol. Roedd modd cymharu'r wybodaeth a gasglwyd gyda'r Cyfrifiad, heb wahaniaethau amlwg na phigynnau o fewn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae'r gwaith o gwmpasu system rheoli cofnodion a ddisgrifiwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol wedi dechrau, a chynhaliwyd cyfarfod gyda darparwyr y meddalwedd presennol ynglŷn â chostau a manteision gwneud addasiadau i'r systemau presennol. Ni fydd y gwaith yma wedi'i gwblhau o fewn y cyfnod adrodd hwn, a bydd yn parhau yn 2016/17. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn dadansoddi'r data am Ddarparu Gwasanaethau yr ydym yn eu casglu ar hyn o bryd, a sicrhau ein bod yn casglu'r data hyn, lle bo modd, yn ôl un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Bydd y data a gasglwn yn gymorth i oleuo ac arwain ein ffordd o ddarparu gwasanaethau i bobl fregus yn y dyfodol.*

***Rheoliad 5*** ***darpariaethau ymgysylltu***
***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.***

### *Sicrhau Ansawdd y ffordd sefydledig o Ymgysylltu â Chymunedau*

| | |
|---|---|
| **Amcan 4** | Sicrhau bod yr Awdurdod yn craffu ar y modd yr ymgysylltir ar hyn o bryd ag aelodau o'r cyhoedd, a bod y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei sicrhau o ran ansawdd, ac yn berthnasol i'r gynulleidfa darged. |
| Rheswm | Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnwys ac ymgynghori â'r bobl y mae'r Awdurdod yn ystyried eu bod yn cynrychioli un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr adborth a geir wrth ymgysylltu yn goleuo Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol, ac yn gymorth i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb, y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol a'r Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol yn craffu ar yr wybodaeth a gesglir wrth ymgysylltu. |
| Cynnydd rhwng 2[il] Ebrill 2015 a 31[ain] Mawrth 2016 | Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod digwyddiadau neu drwy weithgareddau atal tanau yn gymorth i dargedu adnoddau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn ymwybodol fod y nodwedd oedran yn cael effaith ar berson o ran bod mewn mwy neu lai o risg o dân, ac felly mae llawer o'n gwaith ataliol yn cael ei dargedu at bobl ar sail eu hoedran.<br><br>Mae archwiliadau diogelwch yn y cartref, gwaith atgyfeirio cwympiadau, ac asesiadau risg amlasiantaethol o ganlyniad i ddementia yn cael eu hanelu at bobl hŷn, ac mae ymweliadau ag ysgolion, y Ffenics, Chwyldro, FACE ar gyfer pobl iau.<br><br>Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau ein bod yn cofnodi data ac yn craffu arno i oleuo'r hyn rydym yn canolbwyntio arno yn y dyfodol.<br><br>Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, mae yna erbyn hyn amrywiaeth o ymgyrchoedd targed yn ystod y flwyddyn sydd wedi cael eu hanelu at grwpiau neu nodweddion penodol. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae aelodau'r staff yn cael cyfle nawr i ymgysylltu, trafod a deall effaith gweithgareddau'r Awdurdod o safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth. Ystyrir nawr bod hyn yn fusnes fel arfer ac bod yr amcan wedi'i gwblhau. |

| |
|---|
| *Datganiad Cydraddoldeb*<br><br>*Byddwn yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn defnyddio'r cyfle i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyson sy'n diwallu anghenion pawb sy'n ei dderbyn. Ni ddylid colli cyfle i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu a sut y gallwn wella'r gwasanaeth.* |

***Rheoliad 5*** ***darpariaethau ymgysylltu***
***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.***

## *Rhannu Gwybodaeth*

| | |
|---|---|
| **Amcan 5** | Archwilio'r wybodaeth a gesglir gan yr Awdurdod ac a rennir ag asiantaethau eraill. Sicrhau bod yr wybodaeth am droseddau casineb sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ar gael i'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, a bod proses yn ei lle ar gyfer cynghori dioddefwyr. |
| Rheswm | Sicrhau bod yr Awdurdod yn cyfrannu at feithrin cymunedau cryfach, mwy diogel a cydlynol, tra'n cynorthwyo i warchod y bobl mwyaf bregus rhag troseddau casineb, yn enwedig tanau bwriadol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | • Lleihau'r achosion o losgi bwriadol a throseddau sy'n gysylltiedig â chasineb.<br>• Cynyddu'r amddiffyniad i unigolion bregus. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Y Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol a'r Rheolwr Lleihau Llosgi Bwriadol. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Mae protocol wedi bod yn ei le gyda Heddlu Gogledd Cymru dros y 12 mis diwethaf. Cyfeirir achosion o losgi bwriadol neu fygythiadau o'r fath tuag at bobl ar sail eu nodweddion gwarchodedig at y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i gael archwiliad diogelwch yn y cartref fel mater o flaenoriaeth. Mae mesurau gwella diogelwch, fel platiau diogelwch blychau llythyrau, ar gael a rhoddir cyngor am weithgareddau lleihau troseddau.<br><br>Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cadw cofnodion cynhwysfawr o'r ymyriadau hyn, ac mae hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i ganfod themâu neu ardaloedd problemus ar gyfer gwaith targedu yn y dyfodol.<br><br>Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion yr Heddlu yn cael mewnbwn gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth am dân yn cael ei ddefnyddio fel arfer mewn troseddau casineb. Mae hyn yn cynyddu'r cyfle o'u hatgyfeirio cyn i'r digwyddiadau droi'n wir achos o losgi gyda'r posibilrwydd o anaf neu farwolaeth.<br><br>Rydym yn delio mewn amrywiol ffyrdd â phobl ifanc sydd wedi dangos ymddygiad cysylltiedig â llosgi bwriadol, megis FACE a chyrsiau'r Ffenics, a phob un â'r nod yn y pen draw o'u hannog i roi'r gorau i'r math yma o ymddygiad, boed hynny'n cael ei gymell gan gasineb neu resymau eraill.<br><br>Mae'r holl gynnydd a wnaed yn y cyfnod adrodd blaenorol wedi parhau, ac mae'n cael ei ystyried yn fusnes fel arfer. Hefyd, mae staff yn ardal Wrecsam wedi cael eu comisiynu'n uniongyrchol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddarparu gwasanaeth gwella diogelwch i ddioddefwyr cam-drin domestig a throseddau casineb Ystyrir bod yr amcan hwn wedi cael ei gwblhau. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Wrth archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn edrych yn benodol ar droseddau casineb sydd wedi eu hanelu'n benodol at nodweddion gwarchodedig penodol. Bydd yr Awdurdod yn asesu a oes mwy y gall ei gyfrannu i warchod grwpiau bregus mewn perthynas â thanau bwriadol.*

***Rheoliad 6*** ***argaeledd gwybodaeth gyhoeddedig***
***Rheoliad 16*** ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ar gasglu'r data perthnasol***

## *Argaeledd gwybodaeth*

| | |
|---|---|
| **Amcan 6** | Bydd yr Awdurdod yn gwneud yr wybodaeth y mae gofyn iddo ei chadw ar gael mewn ffordd hawdd cael gafael arni pan fo personau sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig yn gwneud cais amdani. |
| Rheswm | • Sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at wybodaeth a fydd o gymorth i'w galluogi i fyw bywydau diogel a sicr.<br>• Gall pob aelod o'n cymunedau gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Awdurdod ar gyfer cynnwys ac ymgynghori, gan ddefnyddio dull cyfathrebu o'u dewis hwy.<br>• Gall cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref.<br>• Gall cymunedau busnes sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân deddfwriaethol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Gall pob aelod o'r gymuned gael mynediad at wybodaeth sy'n ei alluogi i fyw a gweithio mewn amgylchedd diogel a sicr; bydd hyn yn cynnwys cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg ac sydd angen gwybodaeth ddeddfwriaethol a chymunedol. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Cyfrifoldeb Cyfathrebu Corfforaethol, y Swyddog Iaith Gymraeg, Diogelwch Tân a TGCh fydd cyhoeddi diwyg gwahanol, cyfieithu a sicrhau mynediad i'r wefan. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Mae gan GTAGC amrywiaeth o ffyrdd o ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd – gan gynnwys y cylchlythyr 'Er Gwybodaeth' (sydd hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd), gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan GTAGC a gellir gwneud cais i fod ar y rhestr ddosbarthu. Mae amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau ar gael, gan gynnwys y wefan (gyda gwasanaeth llafar), gwefannau rhwydweithio cymdeithasol (Facebook, Twitter, YouTube), cyfeiriadau e-bost penodol, gwybodaeth diogelwch tân a diogelwch tân deddfwriaethol, arddangosfeydd, hysbysebion ar y radio, hysbysebion mewn cyhoeddiadau, erthyglau ar y cyfryngau lleol (darlledu, print ac ar-lein), banc lleisiau (i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfryngau), cyflwyniadau, digwyddiadau ac ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau a chyrsiau hyfforddi, y Ffenics a'r pecyn diogelwch tân i ymarferwyr iechyd ei ddefnyddio gyda chleientiaid.<br><br>Mae cyfres o daflenni diogelwch tân ar gyfer Cymru gyfan wedi eu llunio drwy Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan, ac maent ar gael i'w lawrlwytho ar wefannau'r tri GTA – cafodd y rhain eu paratoi'n ddwyieithog ac mewn diwyg hawdd ei ddarllen, gyda'r hyblygrwydd i gyfieithu a chynhyrchu mewn ieithoedd eraill yn ddiweddarach os oes angen, gan ddibynnu ar y galw a'r gyllideb.<br><br>Mae Grŵp Gweithredol GTAGC wedi cytuno'n ddiweddar ar adroddiad ar Strategaeth newydd ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori. Daw'r adroddiad hwn ar ôl canfod bod angen mabwysiadu dull sefydliadau o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Yn goleuo'r adroddiad, mae astudiaeth a gynhaliwyd gan Gyfranogaeth Cymru ar y newidiadau y teimlid bod eu hangen i wella gweithgareddau ymgysylltu GTAGC. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Mae'r dyletswyddau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd, ac i sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch i bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys mynediad ar y we, gyda thaflenni a dalenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu gan yr Adrannau Diogelwch Tân Deddfwriaethol a Chymunedol a Chyfathrebu Corfforaethol.*

## *Asesiad Effaith Cydraddoldeb*

| | |
|---|---|
| **Amcan 7** | Rhaid i broses Asesu Effaith Cydraddoldeb yr Awdurdod gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau bod staff wedi cael eu hyfforddi i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. |
| Rheswm | Rhaid i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol i asesu effaith tebygol ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol 2010 a Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru). |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr Awdurdod yn cynnal ac yn cyhoeddi canlyniadau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2001 a Dyletswyddau Penodol (Cymru) 2011. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd pob rheolwr a gweithiwr sydd â chyfrifoldeb am bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mynd ati ar y cyd i adolygu eu proses asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Roedd yr adolygiad yn gynhwysfawr, ac wedi arwain at wneud newidiadau i'r canllawiau a'r ffurflenni a ddefnyddir yn y broses.<br><br>Dechreuodd y tri Gwasanaeth ar raglen hyfforddi a roddwyd ar waith fesul cam ledled Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr hyfforddiant terfynol ar asesu effaith ar gydraddoldeb. Mae'r Gwasanaeth wedi hyfforddi Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol ar gwrs undydd.<br><br>Roedd y darparwr hyfforddiant yn tynnu sylw at yr angen i gael enghreifftiau o asesiadau effaith ar gydraddoldeb, a'r rheini o ansawdd da, i fod ar gael i'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau. Mae asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar gael ar wefan y Gwasanaeth. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Byddwn yn diweddaru ac yn cyflwyno proses ddiwygiedig i Asesu Effaith Cydraddoldeb, ac yn sicrhau bod yr holl staff sydd â chyfrifoldeb am lunio polisïau a gweithdrefnau yn derbyn hyfforddiant ar y broses newydd. Bydd pob asesiad effaith cydraddoldeb sydd wedi ei gwblhau ar gael ar y fewnrwyd a gwefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 7*** | ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol*** |
| ***Rheoliad 9*** | ***casglu ac adrodd gwybodaeth yn ymwneud â chyflogaeth*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ynglŷn â chasglu data perthnasol*** |

## *Casglu ac Adrodd Data Cyflogaeth*

| | |
|---|---|
| **Amcan 8** | Erbyn 31ain Mawrth ymhob blwyddyn, gan ddechrau yn 2013, rhaid i Awdurdod casglu a chyhoeddi gwybodaeth cyflogaeth am y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
| Rheswm | Rhaid i Awdurdod gyhoeddi cynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau rhwng cyflogau.<br><br>• nifer y bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd warchodedig;<br>• dynion a merched a gyflogir, yn ôl<br>  ◦ Swydd<br>  ◦ graddfa, ond dim ond pan fo'r Awdurdod yn gweithredu system raddfeydd mewn perthynas â'i weithwyr<br>  ◦ cyflog<br>  ◦ math o gontract (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gontractau parhaol a chyfnod penodol)<br>  ◦ patrwm gwaith (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i lawn amser, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill)<br>  ◦ pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod)<br>  ◦ gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi faint a fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu<br>  ◦ gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a fu'n llwyddiannus (neu fel arall) yn eu cais<br>  ◦ gweithwyr yr Awdurdod sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant<br>  ◦ gweithwyr yr Awdurdod sydd naill ai yn rhan o weithdrefnau cwyno oherwydd eu bod yn rhywun a wnaeth gyhuddiad yn erbyn rhywun arall, neu eu bod yn rhywun y gwnaed cyhuddiad yn ei erbyn<br>  ◦ gweithwyr sy'n destun achosion disgyblu<br>  ◦ gweithwyr yr Awdurdod sydd wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a chasglu'r holl data perthnasol sy'n ymwneud â chyflogaeth. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Staff perthnasol Adnoddau Dynol, Hyfforddi a'r Rheolwr Perfformiad. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | System Gwybodaeth Reoli (MIS)<br><br>Gyda phenodi Rheolwr Gweithredu/Prosiect MIS ym mis Tachwedd 2015, dechreuwyd ar y gwaith o gaffael System Gwybodaeth Reoli. Mae'r Gwasanaeth yn chwilio am system a fydd yn darparu swît adrodd hyblyg sy'n caniatáu i ddefnyddiwr awdurdodedig / hirbell sydd â'r hawliau mynediad perthnasol i greu adroddiad ar unrhyw ddata sydd o fewn y System, e.e. Manylion Llu, Cofnodion Gweithwyr, Rolau Swyddi, gwybodaeth Amser a Phresenoldeb, Salwch, Recriwtio ac ati. Bydd yr offeryn adrodd yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol a chyfoes i'w chyflwyno i ddefnyddwyr unigol, sgriniau neu ddangosfwrdd hunanwasanaeth, gan gynnwys mewn diwyg graffig pan fo'n briodol (graffiau, tablau, siartiau ac ati). Bydd hyn yn cynnwys dangosfyrddau personol i'r staff ar gyfer hunanwasanaeth, a dangosfyrddau i reolwyr i ddarparu gwybodaeth am eu tîm. |

| | |
|---|---|
| | Mae cael gweithrediad hunanwasanaeth yn sicrhau bod gwybodaeth fwy cywir a chyfoes yng nghronfeydd data Adnoddau Dynol y Gwasanaeth ac mae'n gymorth i ysgrifennu adroddiadau ac ar gyfer gofynion ystadegol. Defnyddir yr wybodaeth i oleuo asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar gyfer polisïau a dogfennau eraill yr Awdurdod Tân/Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i'r system fod yn ddwyieithog.<br><br>Diffoddwyr Tân ar Brentisiaeth<br><br>Y llynedd, cafodd y Gwasanaeth gyfle i ddatblygu rhaglen brentisiaeth diffoddwyr tân. Cynigiwyd cyfle i ddeg o bobl ifanc gymryd rhan yn y rhaglen i ddod yn ddiffoddwyr tân sydd wedi'u hyfforddi i ateb yr heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol o ran diogelu eu cymuned. Ystyrir ei bod yn bwysig buddsoddi yn y bobl ifanc yn ein rhanbarth i helpu i warchod diogelwch ein cymunedau. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o blaid datblygu'r prentisiaethau ledled y Gwasanaeth.<br><br>Ymgyrch Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer Recriwtio i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn<br><br>Fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal ymgyrch recriwtio i'r system Amser Cyflawn yn 2015 (ar y cyd â'r GTAau eraill yng Nghymru). Cynhaliwyd diwrnodau gweithredu cadarnhaol yng Ngogledd Cymru, wedi'u hanelu at annog merched a phobl o gefndiroedd du neu leiafrifoedd ethnig i ystyried gyrfa fel diffoddwyr tân.<br><br>Pwrpas y digwyddiadau yma oedd caniatáu i'r rhai a ddaeth yno i ddeall beth yw rôl diffoddwyr tân a beth yw'r broses ddethol. Nod y Gwasanaeth yn cael gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, ac ar hyn o bryd mae merched a phobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tan-gynrychioli yn y Gwasanaeth. Rydym eisiau darparu'r gwasanaeth tân ac achub gorau posibl i bobl Gogledd Cymru ac mae'r digwyddiadau hyn yn allweddol i'r weledigaeth hon. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn cynnal awdit o'r data cyflogaeth yr ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, ac yn sicrhau ein bod yn casglu data am bob un o'r nodweddion gwarchodedig. Ar hyn o bryd, mae rhai data am weithwyr yn cael eu casglu a'u hadrodd trwy Gynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ogystal ag Ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae angen i Adnoddau Dynol gynnal rhaglen barhaus i Ddilysu Data er mwyn sicrhau bod y data'n gywir.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 10*** | ***ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ei weithwyr o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol*** |

## *Hyfforddi Staff ar y Ddyletswydd Gyffredinol*

| **Amcan 9** | Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant cydraddoldeb i ganfod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar y staff wrth gyflawni eu dyletswyddau. |
|---|---|
| Rheswm | • Cynnal dadansoddiad i asesu anghenion hyfforddi cydraddoldeb staff yr ochr weithredol a chefnogol.<br>• Defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad yn uniongyrchol i ddyfeisio rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r anghenion a ganfuwyd. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Mae'n un o ofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sicrhau bod eu staff yn derbyn Hyfforddiant Cydraddoldeb yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Rheolwr Hyfforddi ar y cyd â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Bu'r Gwasanaeth yn adolygu'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant Cydraddoldeb a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae nawr yn paratoi strategaeth hyfforddi<br><br>Adolygwyd y pecynnau hyfforddi presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gofynion perthnasol staff unigol a'r rôl a gyflawnant yn y Gwasanaeth. Er hynny, cynhaliwyd cyfres o gyrsiau hyfforddi'n canolbwyntio ar effaith bersonol a rhagfarn diarwybod. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae pob uwch reolwr a rheolwr canol wedi mynychu'r cwrs, a gwahoddwyd holl aelodau o staff yr adrannau. Mae cyfanswm o 204 o aelodau o'r staff wedi cael y datblygiad hwn. Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso, a bydd yn hynny'n parhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.<br><br>**Hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol**<br>Mae modiwl e-hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiol yn Learn Pro wedi cael ei werthuso a'i ddiweddaru i ddiwallu anghenion GTAGC, a bydd ar gael i holl aelodau'r staff fel modiwl gorfodol yn 2016 – 2018. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau yn y rheoliadau Sector Cyhoeddus ymysg ei weithwyr. Er mwyn galluogi'r amcan hwn i gael ei gyflawni, bydd yr Awdurdod yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y dadansoddiad yn adnabod anghenion y staff o ran hyfforddiant cydraddoldeb sy'n rôl-benodol. Wedi cwblhau hynny, bydd y broses yn annog staff unigol i osod amcanion personol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chaiff hynny ei fonitro trwy'r Adolygiadau Datblygiad Unigol.*

***Rheoliad 18 caffael cyhoeddus***

## *Caffael*

| | |
|---|---|
| **Amcan 11** | Cydymffurfio â'r rheoliad Caffael sydd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a hynny er mwyn sicrhau bod gennym broses gaffael deg ac archwiladwy sy'n ymgorffori un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
| Rheswm | Pan fo gofyn i'r Awdurdod gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, bydd yn:<br>• talu sylw dyledus i p'un ai yw'n briodol i'r meini prawf ar gyfer y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i gynorthwyo i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol;<br>• talu sylw dyledus i p'un ai yw'n briodol i wneud amodau mewn perthynas â perfformiad y contract i gynorthwyo i gwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol'<br>• ystyried Busnesau Bach a Chanolig fel cyflenwyr, lle bo modd. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Sicrhau bod cyflenwadau a gwasanaethau a ddarperir yn cael eu caffael gan sefydliadau parchus a theg. |
| Camau Arfaethedig | • Asesu'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol.<br>• Dyfeisio holiadur cyn-cymhwyso a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y gofynion yn gymesur â maint y cytundeb. |
| Mesur Llwyddiant | Yn dilyn asesu'r sefyllfa gyfredol, gallwn ddangos ein bod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r gyfraith. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Yr adrannau caffael perthnasol: Rheolwyr Storfeydd, Ystadau a Chaffael, Rheolwr y Fflyd a TGCh. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2015 a 31ain Mawrth 2016 | Mae pob prosiect caffael mawr yn cael eu trin ar ran GTAGC gan Adran Gaffael Heddlu Gogledd Cymru, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch ymhob rhan o'i fusnes, boed hynny'n fewnol ymysg y staff, aelodau a gwirfoddolwyr neu'n allanol wrth ymdrin â chontractwyr a chyflenwyr.<br><br>Mae GTAGC yn aelod o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sef cydweithrediad ar draws y sector cyhoeddus i gaffael gwariant cyffredin a rheolaidd ar gyfer Cymru. Mae'r holl waith caffael o'r fath yn cael ei wneud yn unol ag ymrwymiadau moesol a chyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r broses gaffael gyfredol, ac yn sicrhau bod yr Awdurdod, pan fo'n caffael nwyddau a gwasanaethau, yn talu sylw dyledus i'r meini prawf dyfarnu, gan gynnwys perthnasedd y modd y mae'r cyflenwyr yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd holiaduron rhag-gymhwyso yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y gofynion yn gymesur â maint y cytundeb. Pan fo contractwyr llai yn cael cytundebau, byddant yn fodlon cydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth tra'n gweithio i'r Gwasanaeth ac ar Eiddo'r Awdurdod.*

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Data Cyflogaeth

(Fel ar 31ain Mawrth 2016)

# Cyfanswm Nifer y Staff yn eu Swydd - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

| Nodwedd Warchodedig | | Staff yr Yst. Reoli | Staff Gweithredol | Staff y GTA |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | 16-24 | 2 | 11 | 6 |
| | 25-34 | 8 | 163 | 28 |
| | 35-49 | 14 | 339 | 51 |
| | 50-54 | 7 | 102 | 21 |
| | 55-59 | 1 | 22 | 27 |
| | 60 a throsodd | 0 | 6 | 24 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | 6 | 3 |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 5 | 1 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | 4 | 0 | 2 |
| | Anffurfiad arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 1 | 1 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 2 | 1 |
| | | 4 | 14 | 8 |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Partneriaeth Sifil (o'r un rhyw) | 0 | 10 | 2 |
| | Byw gyda Chymar | 3 | 66 | 14 |
| | Wedi ysgaru | 1 | 27 | 12 |
| | Wedi priodi | 16 | 269 | 83 |
| | Sengl | 9 | 123 | 38 |
| | Wedi gwahanu | 0 | 14 | 1 |
| | Gweddw | 0 | 2 | 1 |
| | Heb ddweud | 3 | 12 | 6 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Beichiog yn y flwyddyn ddiwethaf | 1 | 3 | 6 |
| | Mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf | 1 | 5 | 8 |
| | | 1 | 5 | 8 |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | 2 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 1 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 3 | 0 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | 31 | 628 | 151 |
| | Gwyn Arall | 1 | 1 | 2 |
| | Heb ddweud | 0 | 8 | 4 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 4 | 1 |
| | Cristion (Pob Enwad) | 18 | 324 | 90 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 1 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | 9 | 0 |
| | Dim crefydd | 0 | 211 | 3 |
| | Heb ddweud | 14 | 94 | 63 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Rhyw | Benyw | 28 | 37 | 89 |
| | Gwryw | 4 | 606 | 68 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 1 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 1 | 3 | 2 |
| | Heterorywiol | 28 | 570 | 134 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud/Heb ddweud | 3 | 69 | 21 |
| | | 32 | 643 | 157 |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

## Sgiliau Siarad Cymraeg y Staff 2015-2016

| **2016** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynodiad y swydd | Nifer y swyddi wedi'u llenwi ac wedi'u dynodi ar y Lefel hon. | Deiliad y Swydd ar Lefel 0 | Deiliad y Swydd ar Lefel 1 | Deiliad y Swydd ar Lefel 2 | Deiliad y Swydd ar Lefel 3 | Deiliad y Swydd ar Lefel 4 | Deiliad y Swydd ar Lefel 5 | Deiliad y Swydd ar Lefel 6 | Dim asesiad na hunan-asesiad wedi'i wneud | Cyfanswm cofnodion deiliaid swyddi |
| Lefel 2 | 740 | 77 | 130 | 203 | 68 | 64 | 186 | 1 | 11 | 740 |
| Lefel 3 | 18 | 0 | 0 | 3 | 9 | 2 | 4 | 0 | 0 | 18 |
| Lefel 4 | 75 | 2 | 2 | 7 | 0 | 18 | 45 | 0 | 1 | 75 |
| Lefel 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | **834** | **79** | **132** | **213** | **77** | **84** | **236** | **1** | **12** | **834** |

| Staff wedi'u lleoli yn | Cyfanswm swyddi | Deiliad y Swydd ar Lefel 0 | Deiliad y Swydd ar Lefel 1 | Deiliad y Swydd ar Lefel 2 | Deiliad y Swydd ar Lefel 3 | Deiliad y Swydd ar Lefel 4 | Deiliad y Swydd ar Lefel 5 | Deiliad y Swydd ar Lefel 6 | Dim asesiad na hunan-asesiad wedi'i wneud | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys MôN | 55 | 0 | 3 | 3 | 12 | 15 | 22 | 0 | 0 | 55 |
| Conwy | 159 | 9 | 34 | 52 | 11 | 11 | 40 | 1 | 1 | 159 |
| Sir Ddinbych | 254 | 27 | 33 | 64 | 33 | 27 | 65 | 0 | 5 | 254 |
| Sir y Fflint | 84 | 21 | 22 | 26 | 2 | 5 | 5 | 0 | 3 | 84 |
| Gogledd Gwynedd | 123 | 0 | 6 | 24 | 14 | 15 | 63 | 0 | 1 | 123 |
| De Gwynedd | 75 | 0 | 9 | 18 | 5 | 7 | 36 | 0 | 0 | 75 |
| Wrecsam | 84 | 22 | 25 | 26 | 0 | 4 | 5 | 0 | 2 | 84 |
| **Cyfanswm** | **834** | **79** | **132** | **213** | **77** | **84** | **236** | **1** | **12** | **834** |
| | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Gwynedd | 198 | 0 | 15 | 42 | 19 | 22 | 99 | 0 | 1 | 198 |

## Cyfanswm y Ceisiadau gan Staff am Gyflogaeth - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

| Nodwedd Warchodedig | | Staff yr Yst. Reoli | Staff Gweithredol | Staff y GTA |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | 16-24 | 0 | Oherwydd y broses o wneud cais ar-lein, ni fu modd casglu'r data yma | 24 |
| | 25-34 | 0 | | 20 |
| | 35-49 | 0 | | 20 |
| | 50-54 | 0 | | 10 |
| | 55-59 | 0 | | 7 |
| | 60 a throsodd | 0 | | 0 |
| | Heb ddweud | 0 | | 7 |
| | | 0 | 1245 | 88 |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | 8 | 3 |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 0 | 0 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | 0 | 0 | 1 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 3 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 1 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | 0 |
| | | 0 | 11 | 5 |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | 4 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 3 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 17 | 0 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | 0 | 1184 | 85 |
| | Gwyn Arall | 0 | 4 | 2 |
| | Heb ddweud | 0 | 33 | 1 |
| | | 0 | 1245 | 88 |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 4 | 0 |
| | Cristion (Pob Enwad) | 0 | 543 | 50 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | 12 | 0 |
| | Dim crefydd/Heb ddweud | 0 | 686 | 38 |
| | | 0 | 1245 | 88 |
| Rhyw | Benyw | 0 | 131 | 38 |
| | Gwryw | 0 | 1114 | 50 |
| | | 0 | 1245 | 88 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 27 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | 36 | 1 |
| | Heterorywiol | 0 | 1137 | 79 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud / Heb ddweud | 0 | 45 | 8 |
| | | 0 | 1245 | 88 |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

## Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Llwyddiannus i'r Gwasanaeth 2015-2016

| Nodwedd Warchodedig | | Staff yr Yst. Reoli | Staff Gweithredol | Staff y GTA |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | 16-24 | 0 | 9 | 2 |
| | 25-34 | 0 | 10 | 10 |
| | 35-49 | 0 | 9 | 2 |
| | 50-54 | 0 | 0 | 0 |
| | 55-59 | 0 | 0 | 3 |
| | 60 a throsodd | 0 | 0 | 1 |
| | | 0 | 28 | 18 |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | 1 | 0 |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 0 | 0 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor* | 0 | 0 | 0 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | 0 |
| | | 0 | 28 | 0 |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | 1 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 | 0 |
| | Gwyn *(Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon)* | 0 | 26 | 13 |
| | Gwyn Arall<br>Heb ddweud | 0<br>0 | 1<br>0 | 2<br>3 |
| | | 0 | 28 | 18 |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Cristion (Pob Enwad) | 0 | 9 | 6 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | 1 | 0 |
| | Dim crefydd | 0 | 18 | 9 |
| | Heb ddweud | 0 | 0 | 3 |
| | | 0 | 28 | 18 |
| Rhyw | Benyw | 0 | 2 | 9 |
| | Gwryw | 0 | 26 | 9 |
| | | 0 | 28 | 18 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | 1 | 0 |
| | Heterorywiol | 0 | 24 | 18 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud/Heb ddweud | 0 | 3 | 0 |
| | | 0 | 28 | 18 |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

## Y 5% sy'n ennill fwyaf - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

| Yr Holl Staff | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 24 | 3 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 24 | 3 |

## Yr Holl Staff a fu'n ymwneud â Gweithdrefnau Cwynion - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

***(Staff a wnaeth Gŵyn)***

| Yr Holl Staff | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 4 | 0 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 4 | 0 |

## Yr Holl Staff a fu'n ymwneud â Gweithdrefnau Disgyblu - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

***(Staff yr ymchwiliwyd iddynt ac a aeth ymlaen i Wrandawiad Disgyblu)***

| Yr Holl Staff | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 3 | 0 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 3 | 0 |

## Nifer yr Ymadawyr - Ebrill 2015 i Fawrth 2016

| **Nifer y Staff Gweithredol sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 1 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 63 | 3 |
| Gwyn Arall | 1 | 0 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 2 | 0 |
| Cyfanswm | 65 | 3 |

| **Nifer Staff yr Ystafell Reoli sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 0 | 1 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 1 |

| **Nifer Staff y GTA sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 3 | 6 |
| Gwyn Arall | 0 | 1 |
| | | |
| Cyfanswm BME | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 0 | 0 |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Data'n ymwneud â Darparu Gwasanaethau

(Fel ar 31ain Mawrth 2016)

## Data'n ymwneud â Darparu Gwasanaethau

| 1af Ebrill 2015 – 31ain Mawrth 2016 | | Tanau mewn Anheddau | Gwrthdrawiad-au ar y ffyrdd | Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref (ADTC) | ADTC Sefydliadau gwirfoddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | Dan 16 | 25 | 14 | 7965 | 273 |
| | 16-24 | 18 | 62 | 3716 | 157 |
| | 25-34 | 14 | 30 | 4393 | 126 |
| | 35-49 | 36 | 27 | 5682 | 293 |
| | 50-54 | 8 | 10 | 2029 | 130 |
| | 55-59 | 2 | 8 | 1710 | 137 |
| | 60 a throsodd | 66 | 53 | 14120 | 1777 |
| | Anhysbys/heb nodi | 2 | 54 | 4402 | 273 |
| | | | | | |
| **Nam Anabledd (hunan-ddatganiad)** | Anabledd Dysgu | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 267 | 19 |
| | Amhariad Meddyliol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 441 | 32 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 598 | 170 |
| | Anffurfiad Arall | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 632 | 521 |
| | Nam Corfforol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 3410 | 590 |
| | Nam ar y Synhwyrau | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | 968 | 83 |
| | | | | | |
| **Hil** | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 2 | 4 | 243 | 12 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 | 89 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 | 96 | 9 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | 160 | 215 | 29952 | 3004 |
| | Gwyn Arall | 2 | 9 | 54 | 0 |
| | *Heb ddweud* | 7 | 30 | 13583 | 141 |
| | *Unrhyw un arall* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| **Crefydd a Chred** | Bwdhaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Cristion (Pob Enwad) | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Hindŵaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Iddewig | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Mwslimaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Sikh | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Unrhyw grefydd arall | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Dim crefydd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | Benyw | 81 | 110 | 23515 | 1746 |
| | Gwryw | 90 | 136 | 19571 | 1386 |
| | Anhysbys | 0 | 12 | 2931 | 34 |
| | | | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Deurywiol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Heterorywiol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Arall | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Ddim am ddweud | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | | | | | |
| **Trawsrywiol** | Benyw | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Rhyngrywiol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Gwryw | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Ddim am ddweud | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |

**TANAU: Sylwadau**

Bu 428 o danau mewn cartrefi yn y cyfnod hwn (damweiniol a bwriadol).

Cymerwyd manylion personol gan gyfanswm o 171 o bobl a fu mewn digwyddiadau tân. Bydd y ffigyrau hyn yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd fel Dangosyddion Perfformiad, oherwydd ar gyfer ymarferiad hwn cynhwyswyd hefyd y categorïau cymorth cyntaf, archwiliadau rhagofalus ac achubiadau heb anafiadau (pryd y rhoddwyd manylion personol yng nghronfa ddata'r System Cofnodi Digwyddiadau).

**Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd: Sylwadau**

Nid yw manylion personol yn cael eu casglu fel mater o drefn gan bawb yn y Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffyrdd, dim ond y rhai a gategoreiddir fel anafusion (angheuol neu anangheuol) a rhai a achubwyd heb anaf.

**Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref: Sylwadau**

Cafodd cyfanswm o 22750 eiddo Archwiliad Diogelwch yn y Cartref yn ystod 2015/2016, gyda chyfanswm o 47183 o breswylwyr. Caiff y data Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref ei gyfrifo ar sail data preswylwyr. Nid oes data'n cael ei gasglu yn ystod yr ymweliadau Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref ynglŷn â chrefydd, cyfeiriadedd rhywiol na thrawsrywedd.